awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

# PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR


CROESO .......... 2

YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN .......... 3

Y STRATEGAETH AWEN 2025-2030 .......... 4

EIN CYFLAWNIADAU .......... 5

EIN CYFLEOEDD I YMDDIRIEDOLWYR .......... 6

BOD YN YMDDIRIEDOLWR .......... 7

MANYLEB Y PERSON .......... 8

Y BROSES YMGEISIO .......... 9

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol
Cultural Trust

# Croeso gan y cadeirydd, Ava Plowright



Annwyl ymgeisydd,

**Diolch am eich diddordeb mewn bod yn ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.**

Fel Cadeirydd, rwy'n falch ac yn freintiedig o fod yn rhan o dîm ymroddedig ac angerddol sy'n credu'n gryf ym mwriad Awen i 'wella bywydau pobl'.

Mae'r weledigaeth hon yn bellgyrhaeddol ac yn ddylanwadol. Byddwn yn gwella lles drwy roi cyfle i bobl a chymunedau brofi, mwynhau a chael ein hysbrydoli gyda'n gilydd gan ddiwylliant.

Rydw i wrth fy modd fod yn rhan o sefydliad sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn ystyrlon â dros filiwn o bobl sy'n byw ledled de Cymru bob blwyddyn.

P'un a ydyn nhw'n rhan o'r gynulleidfa yn un o'n theatrau, yn ymweld â'n parc gwledig, yn aelod o'n gwasanaethau llyfrgelloedd, neu'n hyfforddai yn ein rhaglenni yn y gwaith ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, mae pob person a phob cymuned yn bwysig i Awen.

Yn Awen, rydym yn delio gyda'r heriau a chyfleoedd y mae'r sector elusennol yn ei wynebu mewn modd hyblyg, gan newid y ffordd rydym ni'n darparu ein gwasanaethau a defnyddio ein llefydd a'n lleoliadau, o ysteried y creisis costau byw a'r pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol.

Rydym ni'n chwilio'n gyson am ffyrdd newydd ac arloesol o gyrraedd mwy o bobl, gwneud yn fawr o'n hunaniaeth Gymreig yn ogystal a'n diwylliant a'n hiaith, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant ac hygyrchedd, a dangos ein ymrwymiad at gynaladwyedd amgylcheddol.

Rydym ni am apwyntio unigolyn sydd yn gallu defnyddio ei sgiliau ym maes rheolaeth ariannol i gefnogi Awen a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gyda goruchwyliaeth effeithiol yr elusen a'i his-gwmnïau.

A chanddynt ystad o sgiliau lefel-uchel a dulliau cydweithredol, bydd disgwyl iddyn nhw fod yn rhagweithiol, yn barod i herio ac i wneud penderfyniadau uchel eu naws i gefnofi ein hamcanion elusennol  a'n buddiolwyr.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymrwymedig i'n gweledigaeth a'n gwerthoedd, yn gallu cynnig persbectif gwrthrychol, yn frwdfrydig ac yn gallu gweithredu fel eiriolwr a llysgennad dros y sefydliad. Rydyn ni'n annog yn rhagweithiol geisiadau gan bobl o bob oed, rhywedd, unrhyw un sy'n cynrychioli'r mwyafrif byd-eang, y rhai sy'n LHDTCRhA+ , yn anabl a/neu sy'n cynnig profiad bywyd a all gyfrannu at waith Awen.

Mae ein hymddiriedolwyr yn cael eu cefnogi'n llwyr gan hyfforddiant a mentora gan gyd-aelodau'r bwrdd a chydweithwyr Awen, gan eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol a hirdymor i'r elusen. Mae swyddi ymddiriedolwyr yn wirfoddol, ond bydd treuliau yn cael eu talu i gefnogi cynhwysiant.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.

**Ava Plowright**, Cadeirydd

# YNGLŶN AG YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN

**Elusen gofrestredig yw Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Ein diben yw gwneud bywydau pobl yn well. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy roi cyfle i bobl a chymunedau brofi, mwynhau a chael eu hysbrydoli gan ddiwylliant gyda'i gilydd.**

Mae Awen yn gweithio gyda phartneriaid mewn sawl sector ac yn falch o'n partneriaethau gydag awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

Trwy'r partneriaethau hyn rydyn ni'n cynnal amrywiaeth o gyfleusterau a gweithgareddau diwylliannol, gan gynnwys theatrau, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, parc gwledig a dau brosiect yn y gwaith ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

Mae gan Awen is-gwmni masnachu o dan berchnogaeth lwyr hefyd, sef Awen Trading Ltd, a'i nod yw datblygu grŵp o fusnesau cymdeithasol gyfrifol sy'n cystadlu'n fasnachol, sy'n bodloni disgwyliadau cwsmeriaid ac sy'n creu elw iach y mae'r rhiant-elusen yn ei gael, yn ei thro, yn rhodd cymorth.

I ddarllen ein hadroddiadau diweddaraf, sef Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, Yr Adroddiad Strategol a'r Datganiadau Ariannol Cyfunol, ewch i wefan y Comisiwn Elusennau: https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/ a chwiliwch am elusen rhif 1166908.

## Ein gwerthoedd

**Yn Awen, mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth yr ydyn ni'n ei wneud.**
Maen nhw'n diffinio pwy ydyn ni, yr hyn yr ydyn ni'n ei ddweud a'i wneud, a sut yr ydyn ni'n ymddwyn:

### CREADIGOL
Yn archwilio ffyrdd newydd a chreadigol yn barhaus er mwyn gwella ein dull o weithredu, hyrwyddo arloesedd ac ymateb i'r byd sy'n newid.

### CYDWEITHREDOL
Yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol yn fewnol ac yn allanol â chydweithwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid.

### GRYMUSO
Grymuso pobl i gyflawni eu potensial a gwneud i bethau da ddigwydd.

### TEG
Ymdrechu i fod yn deg yn ein holl weithredu, gan barchu ein gilydd a'r gymuned.

Mae gwaith Awen yn cefnogi'r saith nod sydd wedi'u hamlinelli yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru.

- Cymru **LEWYRCHUS**
- Cymru **GYDNERTH**
- Cymru **IACHACH**
- Cymru sy'n **FWY CYFARTAL**
- Cymru o **GYMUNEDAU CYDLYNUS**
- Cymru o **DDIWYLLIANT BYWIOG** lle mae'r Gymraeg yn **FFYNNU**
- Cymru sy'n **GYFRIFOL** ar lefel **FYD-EANG**

## Mae ein nodau strategol yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

### POBL
Rydyn ni'n awyddus i fod yn rym er gwell wrth fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a gwella llesiant, gan ddefnyddio diwylliant i gysylltu pobl â'i gilydd, cynnal cymunedau a lleihau'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan.



### LLEOEDD
Rydyn ni'n awyddus i feithrin ymdeimlad o le a chefnogi adferiad economaidd lleol drwy fuddsoddi yn ein cyfleusterau, hyrwyddo eu treftadaeth, annog ymwelwyr a phrynu'n lleol lle bo modd.



### BUSNES DA
Byddwn yn gwrando ar ein gweithlu ac yn cefnogi llesiant ein gweithwyr; a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fod yn fusnes cyfrifol, cynaliadwy sy'n cael ei lywodraethu'n dda.






# CREU CYMUNEDAU DIWYLLIANNOL LLEWYRCHUS LLE MAE PAWB YN TEIMLO EU BOD YN PERTHYN

**Byddwn yn lansio ein strategaeth newydd ar gyfer 2025-30 ym mis Ebrill.**

Ein nod yw creu lleoedd a phrofiadau sy'n rhoi ymdeimlad o bwrpas, hunaniaeth, mynegiant ac, yn bennaf oll, ymdeimlad o berthyn i bobl.

Rydym am wneud Awen yn sefydliad y mae pawb yn teimlo y gallant fod yn rhan ohono, anelu at weithio iddo a lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain. Rydym am ganolbwyntio mwy ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan ganolbwyntio mwy ar y lleoedd, y bobl a'r cymunedau sy'n wynebu'r heriau mwyaf ac sy'n teimlo nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol.

## Bydd themâu ein strategaeth yn cynnwys y modd y byddwn yn chwarae ein rôl i gefnogi:

- Anghydraddoldeb iechyd
- Y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas
- Gwirfoddoli
- Oedolion ag anableddau dysgu
- Adfywio canol y dref
- Llythrennedd plant / tlodi digidol
- Diwydiannau creadigol a diwylliannol / sgiliau a dysgu
- Argyfwng hinsawdd
- Twf sefydliadol
- Cymraeg
- Cyfranogiad
- Pobl

## Mae ein strategaeth yn amlinellu cyfeiriad a blaenoriaeathau ein gwaith dros y pum mynedd nesaf yn ôl canlyniadau.

1. Amgylchedd iach lle bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o blaned lanach, fwy cadarn, ac y gellir ei deall yn well.
2. Lleoedd bywiog i fyw a gweithio ynddynt gydag economïau lleol sy'n tyfu ac ymdeimlad balch o hunaniaeth.
3. Pawb â'r cyfle i gyflawni eu potensial gyda mynediad i sgiliau, cefnogaeth a chymorth pan fydd ei angen arnynt.
4. Cymunedau iach lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw bywydau iach.
5. Sefydliad cynaliadwy gydag Awen yn cael ei ystyried yn gyflogwr cyfrifol, teg, dibynadwy ac yn bartner o ddewis.

# EIN HEFFAITH MEWN NIFEROEDD

2024-25

**DROS 1 MILIWN**

o unigolion wedi ymgysylltu â'n gwaith

**11,992**

Rhyngweithiadau staff llyfrgell gyda'r nod o wella cynhwysiant cymdeithasol, digidol ac economaidd, llesiant ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae datblygu syniadau newydd, bod yn angerddol am yr hyn rydyn ni'n ei gynnig, a chydweithrediadau a phartneriaethau arloesol yn allweddol i'n llwyddiant.

**456,236**

Eitemau llyfrgell a fenthycwyd.

Gan helpu pobl i wella eu hiechyd corfforol a meddyliol trwy atal dirywiad gwybyddol, cynyddu empathi, tyfu eu geirfa, lleihau straen, cynorthwyo cwsg, lleddfu iselder, a mwynhau dianc trwy bleser a phrofiad darllen.

**466,995**

Pobl a ymwelodd â'r llyfrgell.

Gan sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at bŵer a phleser darllen, gwybodaeth a syniadau, profi syniadau newydd, ymgolli mewn straeon gwych, cwrdd â phobl newydd, ac ar yr un pryd darparu ymdeimlad o le.

**215,825**

Ymweliadau â Pharc Gwledig Bryngarw.

Mae tystiolaeth yn dangos bod llawer o fanteision iechyd cymdeithasol, corfforol a meddyliol yn sgil mwynhau'r awyr agored a chymryd rhan yn ein hamgylchedd naturiol gan gyfrannu at Gymru iachach.

**770**

Plant ysgol yn mynychu ein rhaglen addysg amgylcheddol ym mharc Bryngarw.

Mae astudiaethau'n dangos bod dysgu yn yr awyr agored yn cael effaith gadarnhaol eang ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc, cyflawniad ehangach, lefelau cyrhaeddiad a datblygiad personol.

**19** (WOOD-B)
**35** (B-LEAF)

Hyfforddeion yn Wood-B a B-Leaf.

Mae ein hyfforddeion yn oedolion o bob oed ag anableddau dysgu, sy'n cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn, ac yn cael eu helpu i fyw bywydau hyderus, iach ac annibynnol mewn lleoliad diogel a magwrol yn y gwaith.

**72,538**

Nifer y bobl a fynychodd ddigwyddiadau neu a gymerodd ran mewn gweithgareddau yn: Neuadd y Dref Maesteg; Neuadd y Gweithwyr Blaengarw; Y Met, Abertyleri; Y Miwni, Pontypridd; ac Awel y Môr, Porthcawl.

Mae ein lleoliadau yn fannau cymunedol cynnes, croesawgar a hygyrch lle gall pobl o bob oed a chefndir greu cysylltiad a mwynhau profiadau cymdeithasol a rennir.

**179**

Tocynnau Hynt a roddwyd.

Mae Hynt yn gynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol yng Nghymru i sicrhau bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr â nam neu ofyniad mynediad penodol, a'u gofalwyr.

**10,904**

Nifer y bobl a fynychodd ddigwyddiadau Cymraeg neu ddwyieithog yn ein lleoliadau a'n llyfrgelloedd.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu ein rhaglenni Cymraeg ym mhob lleoliad, gan weithio mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith, ysgolion Cymraeg lleol a phartneriaid creadigol o bob cwr o Gymru.

**DROS £35 MILLION**

Ers 2015, gyda'n partneriaid, rydym wedi goruchwylio ceisiadau ac wedi sicrhau cyllid gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer ailddatblygu a gwelliannau sylweddol i'n mannau diwylliannol a threftadaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys: Llyfrgelloedd Betws, Pencoed, y Pîl a'r Sarn; Canolfan Addysg a Llesiant Y Nyth ym Mharc Gwledig Bryngarw; Neuadd y Dref Maesteg; Y Miwni ym Mhontypridd; a Phafiliwn y Grand ym Mhorthcawl.

**14,506**

Aelodau o'r gynulleidfa neu gyfranogwyr mewn prosiectau Llesiant Creadigol.

Mae'r gwaith hwn yn ceisio cael effaith iechyd, cymdeithasol a llesiant sylweddol a pharhaol ar gymunedau, grwpiau ac unigolion. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu mynediad at weithdai creadigol, perfformiadau, celfyddydau awyr agored a chyfleoedd dysgu sydd fel arfer yn rhad ac am ddim neu am gost isel.

# EIN CYFLEOEDD I YMDDIRIEDOLWYR

**Mae Awen yn cael ei llywodraethu gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol sy'n gyfrifol am arwain yr elusen a sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcanion.**

Mae gan ymddiriedolwyr amrywiaeth eang o sgiliau, priodoleddau, profiad bywyd a gwybodaeth gymunedol sy'n eu galluogi, ar y cyd, i ddarparu arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol a llywodraethiant da.

Rydym y chwilio am unigolyn gyda sgiliau penodol a phrofiad ym maes rholaeth strategol cyllid a chyfrifo i ymuno a'r bwrdd.

### Fel ymddiriedolwr, mae'n rhaid i chi allu dangos eich bod:

- Yn deall sut beth yw cefnogi Awen i gyflawni a'ch bod wedi ymrwymo i hynny;
- Yn gallu cefnogi twf a llwyddiant parhaus Awen;
- Yn ymrwymo ar bob lefel i weithio er lles pennaf yr elusen.

Bydd pob ymddiriedolwr yn chwarae rhan hanfodol wrth oruchwylio'r elusen gan sicrhau ei bod yn cyflawni yn erbyn ei hamcanion elusennol, ei bod yn gynaliadwy yn ariannol, bod ganddi lywodraethu cryf a'i bod yn diogelu enw a gwerthoedd y sefydliad.

## YMRWYMIAD I AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Rydyn ni yn ymrwymo i sicrhau bod ein bwrdd ymddiriedolwyr yn cynrychioli ein cymunedau ac yn cynnig amrywiaeth o syniadau i gefnogi'r hyn yr ydyn ni'n ei wneud. Fel cyflogwr, rydyn ni'n falch o'n statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd a'n rhan bresennol ac yn y gorffennol yn y cynllun Llwybrau i'r Bwrdd.

Rydyn ni'n chwilio'n am ffyrdd newydd ac arloesol o gyrraedd mwy o bobl, defnyddio ein hunaniaeth a'n diwylliant Gymreig a'r iaith Gymraeg, hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd, a dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol.

Rydyn ni'n annog ceisiadau gan bobl o bob oed, rhywedd, unrhyw un sy'n cynrychioli'r mwyafrif byd-eang, y rhai sy'n LHDTCRhA+, yn anabl a/neu'n cynnig profiad bywyd a all gyfrannu at waith Awen.



# BOD YN YMDDIRIEDOLWR

Yn Awen, rydyn ni'n gwerthfawrogi safbwyntiau newydd a syniadau newydd, yn ogystal â phrofiad. Fel ymddiriedolwr, bydd eich amser a'ch cyfraniad i lwyddiant parhaus yr elusen yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Bydd pob cais yn cael ei drin yn gyfartal.

## Mwy o wybodaeth am rôl ymddiriedolwr

Am fwy o wybodaeth am rôl ymddiriedolwr ac yn ehangach ar lywodraethu elusennau, gweler y Cod Llywodraethu Elusennau ar www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved

## Ymrwymiad amser

Fel arfer mae cyfarfodydd y bwrdd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, o leiaf bob chwarter. Mae dewisiadau hybrid ar gael i gefnogi cymryd rhan pan fydd amgylchiadau'n galw am hynny. Efallai y cewch chi eich galw hefyd i 'gyfarfodydd arbennig' anaml iawn, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb, os oes mater sydd angen ei drafod ar unwaith neu sydd angen amser ychwanegol na fyddai cyfarfod bwrdd yn ei ganiatáu. Ar gyfartaledd, mae'r bwrdd yn cyfarfod am tua 2.5 awr bob dau i dri mis. Mae disgwyl i ymddiriedolwyr dreulio amser yn darllen papurau'r bwrdd cyn y cyfarfodydd a chael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau Awen.

Mae gan Awen hefyd Fwrdd Masnachu ac is-bwyllgorau eraill ar gyfer Risg ac Archwiliad, a Pobl a Chynhwysiant.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymddiriedolwyr yn eistedd ar un o'r rhain, gan ddibynnu ar eu sgiliau a chyfleoedd datblygu, ond mae modd gwahodd ymddiriedolwyr i fod yn bresennol fel arsylwr yn y lle cyntaf.

Mae ymddiriedolwyr yn chwarae rôl llysgenhadol bwysig yn Awen, a disgwylir iddynt fynychu ystad eang o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae ymddiriedolwyr yn cael eu gwahodd i fynychu achlysuron arbennig drwy gydol y flwyddyn, fel y pantomeim blynyddol ym Mhafiliwn y Grand, noswaith i ddathlu ar gyfer Hyfforddeion B-Leaf a Wood-B, a digwyddiadau lansio a phen-blwydd yn ein holl leoliadau. Mae disgwyl hefyd iddyn nhw ymgysylltu â'n gwaith a bod yn weladwy mewn lleoliadau, er enghraifft fel aelod o lyfrgell leol neu fynychwr theatr, ar adegau eraill.



## Hyfforddiant

Er mwyn cefnogi eich datblygiad proffesiynol, bydd proses hyfforddi a chynefino gynhwysfawr yn cael ei darparu i bob ymddiriedolwr pan gaiff ei benodi. Bydd hyn yn cynnwys mynediad at yr holl bolisïau a gweithdrefnau presennol, dogfennau llywodraethu, a chopïau o adroddiadau a chyfrifon blynyddol.

Efallai y bydd mentor yn cael ei bennu ar gyfer ymddiriedolwyr newydd hefyd – ymddiriedolwr arall ar y bwrdd sy'n brofiadol – i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad am hyd at flwyddyn.

Hefyd, mae Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd blynyddol i ymddiriedolwyr, lle y gallai cyrsiau hyfforddi a seminarau ychwanegol gael eu darparu, yn ogystal â chyfleoedd i ymweld â'n lleoliadau a chael blas arnyn nhw'n uniongyrchol ein hunain.

## Cefnogaeth arall gennym ni

Mae pob cyfarfod yn cael ei gynnal mewn ffordd gynhwysol, gydag egwyl a lluniaeth reolaidd.

Mae modd darparu addasiadau penodol, rhesymol ar gyfer cyfathrebu.

## Treuliau

Nid yw cyfraith elusennau y DU yn caniatáu i ymddiriedolwyr elusen gael eu talu i fod yn ymddiriedolwr. Fodd bynnag, i gefnogi cynhwysiant byddwn yn talu costau **teithio**, **cynhaliaeth** a **gofal plant**, i fynychu cyfarfodydd, diwrnodau cwrdd i ffwrdd, hyfforddiant ac ati, ***a byddwn yn talu'r rhain mewn modd amserol.***

# MANYLEB Y PERSON

## Mae'r Comisiwn Elusennau yn amlinellu'r chwe phrif gyfrifoldeb ar gyfer ymddiriedolwyr:

1. Sicrhau bod eich elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd. Nid oes diffiniad cyfreithiol o fudd cyhoeddus, ond yn gyffredinol rhaid i'ch dibenion fod yn elusennol, yn fanteisiol ac o fudd i'r cyhoedd neu ran ddigonol ohono.
2. Cydymffurfio â dogfen lywodraethu eich elusen a'r gyfraith.
3. Gweithredu er lles pennaf eich elusen.
4. Rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol.
5. Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol.
6. Sicrhau bod eich elusen yn atebol.

**Ynghyd â'ch sgiliau penodol, mae'r canlynol yn amlinellu'r hyn yr ydyn ni'n ei ddisgwyl gan holl ymddiriedolwyr Awen**

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail eich cyfraniad posibl i'r bwrdd, nid eich profiad blaenorol yn unig. Yn gyffredinol, mae bod yn barod i gydweithio fel rhan o fwrdd sydd wedi ymrwymo i helpu Awen i gyflawni ei nodau yn hollbwysig.

- Wedi ymrwymo i weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Awen. Y gallu i gyfathrebu hyn yn frwdfrydig i eraill.
- Angerddol dros waith Awen ym meysydd y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a'r diwydiannau creadigol.
- Yn barod i ddysgu am ddyletswyddau cyfreithiol, rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac yn glir ar y gwahaniaeth rhwng swyddogaethau llywodraethu a swyddogaethau rheoli.
- Gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm amrywiol o ymddiriedolwyr.
- Parchu barn a syniadau pobl eraill.
- Yn barod i gyfrannu gwaith neu brofiad bywyd i helpu i lywio datblygu strategaeth.
- Cyfathrebwr da gyda sgiliau rhyngbersonol rhagorol, sy'n gallu grymuso a herio'n gefnogol.
- Yn fodlon ymgysylltu â chysylltiadau a rhwydweithiau a/neu lenwi rôl llysgenhadol er budd Awen, gan gynnwys mynychu digwyddiadau a gweithgareddau.
- Yn barod i ddysgu mwy am y cyd-destun y mae Awen yn gweithio ynddo.
- Yn gallu ac yn barod i neilltuo'r amser angenrheidiol i'r rôl ac yn barod i deithio i ymweld â safleoedd a gweithgareddau Awen.

# PROSES YMGEISIO

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol gyda'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr cyn gwneud cais, anfonwch e-bost at nicola.ashman@awen-wales.com i drefnu.

## Gallwch wneud cais gan ddefnyddio unrhyw un o'r fformatau canlynol:

**YSGRIFENEDIG**
CV a llythyr eglurhaol gan gynnwys sut rydych chi'n cyd-fynd â'n gofynion a'r hyn y byddech chi'n dod ag ef i'r bwrdd.

**FIDEO**
YouTube neu Vimeo.

**SAIN**
Trwy ffeil sain.

Croeso i chi eu hanfon ar e-bost at **nicola.ashman@awen-wales.com** gan ddefnyddio **'Cais Ymddiriedolwr'** fel y llinell testun.

Os ydych chi'n cyflwyno ffeil fawr, anfonwch hi drwy'r platfform rhannu am ddim **WeTransfer**, ond rhowch wybod i ni ar e-bost fel y gallwn ni ei lawrlwytho.

## dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw:

**DYDD IAU 28 CHWEFROR 2024**

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer rhwng canol a diwedd mis Mawrth.

Os oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i wneud y broses recriwtio yn fwy hygyrch neu'n gynhwysol i chi, rhowch wybod i ni.

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.